Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Clwb Plant Segontiwm Cyf.**

**Ysgol yr Hendre**
**Ffordd Llanbeblig**
**Caernarfon**
**LL55 2AT**



## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

15/9/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Clwb Plant Segontiwm Cyf.

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br><br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Clwb Plant Segontiwm Cyf |
| Uchafswm y lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw<br><br>18 Gorffennaf 2018 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mewnosod â llaw<br><br>Na |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

Ewch i ddiwedd yr adroddiad hwn i gael rhagor o wybodaeth am raddau.

## Crynodeb

Mae gan blant gyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt. Mae plant yn weithgar ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn  mwynhau ystod dda o weithgareddau tu mewn ac yn yr awyr agored a maent yn gallu dewis ymlacio i gael ychydig o amser tawel. Mae’r plant yn cael cyfle i archwilio eu hardal chwarae yn annibynnol. Mae plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn dda.

Mae gan y staff ddealltwriaeth briodol o'u rôl i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cynnig amgylchedd cartrefol, ac mae eu rhyngweithio'n gynnes a chyfeillgar. Bydd staff yn cynllunio ac yn trefnu gweithgareddau a chyfleoedd addas i helpu i ddatblygu sgiliau dysgu, chwarae a chorfforol plant gyda digon o gyfleoedd i chwarae yn yr awyr iach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylcheddau dan do ac awyr agored yn ddiogel ac yn lân. Mae staff yn goruchwylio plant yn briodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r teganau, yr adnoddau a'r offer yn briodol I oedran y plant, mewn cyflwr addas ac yn ennyn eu diddordeb.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymroddedig ac yn gweithio'n galed.  Maent wedi adeiladu tîm cryf o staff i helpu i sicrhau gwelliannau i blant.  Maent yn  rheoli'r lleoliad yn briodol.  Fodd bynnag, mae angen gwella rhai meysydd ymhellach er mwyn bodloni’r rheoliadau. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Llesiant Da

Mae plant yn fywiog ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn, maent wedi ffurfio cydberthnasau gyda'u ffrindiau a gyda staff, ac maent yn gyfarwydd â threfniadau arferol y clwb.

Mae plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mwynhau sgwrsio â staff a'u ffrindiau am eu diwrnod yn yr ysgol. Siaradodd plentyn yn gyffrous am sut y gwnaethant fwynhau eu cinio yn yr ysgol y diwrnod hwnnw. Roedd plant yn siarad gyda ni am beth mae hoffi gwneud yn y clwb. Er enghraifft, dangosodd plentyn ei liwio i ni, ac roedd yn gyffrous am ddefnyddio sticeri creaduriaid y môr. Roedd plant yn frwdfrydig iawn, yn dangos y planhigion roeddent wedi eu tyfu yn yr ardal chwarae awyr agored.

Mae plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol. Er enghraifft, roeddent yn dangos i ni sut maent yn gosod eu côt a'u bag ar beg ac yn golchi eu dwylo cyn chwarae a chyn amser byrbryd. Maent yn gyfforddus yn mynd at staff er enghraifft, gofynnodd plentyn i aelod o staff eu gwthio ar y siglen ac ymatebodd yr aelod staff yn syth. Roedd hyn yn gwneud i'r plentyn deimlo'n hapus.

Mae plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn mwynhau achlysur cymdeithasol amser bwyd ac yn ymarfer moesau da. Maent yn dysgu rhannu a chymryd eu tro. Gwelsom blant hŷn yn helpu eu ffrindiau iau i gicio pêl ac adeiladu trac trên pren. Roeddent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm. Cafodd dwy ffrind lawer o hwyl yn chwarae ar y sleid a chwerthin wrth fynd lawr gyda'u gilydd. Mae plant yn weithgar ac yn chwilfrydig. Maent yn mwynhau archwilio, gan ddilyn eu diddordebau eu hunain a gwneud dewisiadau. Er enghraifft, roedd plentyn yn frwdfrydig am baentio llun, rhoddodd ei ffedog ymlaen a mwynhau'r rhyddid o ddefnyddio paent lliw gwahanol a brwsys paent o wahanol faint. Roedd plant eraill yn mwynhau datblygu eu sgiliau cydlynu yn yr awyr agored wrth ymarfer taflu a dal pêl a dringo'r cyfarpar yn hyderus. Roedd rhai plant yn mwynhau ymlacio a darllen llyfrau yn y gornel dawel.

Mae plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu, dysgu a meithrin eu sgiliau annibyniaeth, sy'n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau a gwneud pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, gwelsom blentyn yn datblygu ei ddychymyg yn y gornel gartref, wrth osod darnau pizza ar hambwrdd yn ofalus, cyn eu gosod yn y ffwrn a rhannu gyda'i ffrindiau. Roeddent yn paratoi eu hunain yn dda ar gyfer mynd adra a cadw eu teganau'n daclus. Mae'r plant yn mwynhau'r amser yma i wneud pethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol gan y staff.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r staff yn frwdfrydig ac yn ymateb i ofynion y plant yn dda. Mae perthynas hyfryd wedi meithrin rhyngddynt. Maent yn canmol plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau.

Mae gan y staff ddealltwriaeth briodol o weithdrefnau diogelu ac maent yn gweithredu'r polisïau yn addas. Mae staff yn cofnodi presenoldeb plant a phwy sy'n gofalu amdanynt ond nid ydynt yn nodi eu hamseroedd egwyl. Mae ganddynt hyfforddiant cymorth cyntaf a hyfforddiant diogelu. Cynhelir driliau tân a chofnodir y canlyniadau i gynorthwyo gwelliannau ymarferol. Mae staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae staff yn sicrhau bod plant yn cael byrbrydau iach a bod dŵr ar gael. Maent yn trefnu gweithgareddau chwarae addas yn yr awyr agored, gan annog plant i chwarae yn yr awyr iach er mwyn meithrin eu sgiliau corfforol.

Mae staff yn annog plant i olchi eu dwylo ac mae hyn yn helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol mewn modd cadarnhaol. Maent yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau ond nid yw  pob un o'r rhain wedi'u harwyddo gan rieni.

Mae staff yn trefnu gweithgareddau addas ac yn rhoi cymorth i blant ddatblygu eu chwarae a'u dysgu mewn modd cadarnhaol. Maent yn gwahodd plant i rannu eu hoff a'u cas bethau ac mae hyn yn arwain at drafodaethau bywiog. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth plant o'u cymdeithas a'u diwylliannau ehangach yn effeithiol. Mae lluniau o'r plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau diddorol wedi eu harddangos, er enghraifft pobi bara brith, gwneud den a datblygu eu creadigrwydd drwy gelf a chrefft.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a glân lle gall plant chwarae a dysgu yn briodol. Maent yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol gan nodi'r peryglon posibl i blant a pha fesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Fodd bynnag nid ydynt yn adlewyrchiad clir o'r lleoliad a'r gweithgareddau y mae plant yn cymryd rhan ynddynt.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad wedi cynyddu'r trefniadau glanhau arferol ac maent yn dilyn y canllawiau cyfredol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gwybodaeth glir ar gael i bawb am sut i ddelio gydag argyfyngau. Maent yn sicrhau bod staff yn goruchwylio plant yn addas.

Maent wedi sicrhau bod gosodiad yr ystafell chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant drwy eu galluogi i symud o gwmpas yn rhydd gan wneud dewisiadau i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae ystod eang ac amrywiol o deganau ac adnoddau ar gael ac mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod gan blant fynediad at ddodrefn o faint priodol.

Mae’r bobol sy’n rhedeg y lleoliad yn trefnu ardaloedd dysgu addas ac mae dewis priodol o adnoddau naturiol ar gael i feithrin sgiliau ieithyddol, rhifedd a hunanymwybyddiaeth plant. Mae teganau ac adnoddau wedi eu gosod yn gyfleus o fewn cyrraedd y plant sy’n eu helpu i wneud penderfyniadau a dewisiadau am yr hyn maent eisiau chwarae.

Mae rhai adnoddau amlddiwylliannol i godi ymwybyddiaeth plant o'u cymdeithas ehangach ar gael, ond nid yw'r ardal hon wedi ei datblygu'n llawn. Mae’r bobol sy’n rheoli’r lleoliad yn defnyddio ychydig o ddeunyddiau ail-gylchu, ond mae diffyg nwyddau cartref wedi eu hailgylchu yn y gornel gartref i ddatblygu sgiliau synhwyraidd a dychymyg plant. Yn ystod ein hymweliad nid oedd yr orsaf ddwr yn gweithio a doedd dim tywod na phridd yn yr hambwrdd archwilio. Arweiniodd hyn i rai o'r plant fod yn siomedig. Ers ein hymweliad mae'r unigolyn cyfrifol wedi cadarnhau ei bod wedi mynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod plant yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau corfforol ac maent yn mynd a'r plant I'r parc lleol yn aml. Maent wedi creu ardaloedd briodol i blant dyfu blodau a llysiau a dysgu am y byd naturiol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gan blant ganlyniadau llesiant da. Mae ganddynt wybodaeth briodol am eu cyfrifoldebau rheoleiddiol ond mae angen datblygu rhai meysydd er mwyn bodloni’r rheoliadau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ysgrifennu datganiad o ddiben, sy'n rhoi gwybodaeth i rieni am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ond nid yw pob un o'r rhain yn gyflawn i gynnwys gwybodaeth berthnasol am fanylion cyswllt asiantaethau allanol, er enghraifft, polisïau diogelu plant a rheoli ymddygiad positif. Maent wedi cwblhau'r datganiad gwasanaeth ar gyfer asesu. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth da o’u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn bodloni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg.

Mae'r adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal yn llawn gwybodaeth ac yn tynnu sylw at welliannau a wnaed, yn ogystal â gweledigaeth yr unigolyn cyfrifol ar gyfer dyfodol y lleoliad. Mae sylwadau gan rieni a phlant wedi cael eu casglu a'u cynnwys yn yr adroddiad adolygu i ddangos beth mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda a pha welliannau allai gael eu gwneud yn y dyfodol.

Mae gwiriadau datgelu a gwahardd a hyfforddiant perthnasol y bobl sy'n rhedeg a gweithio yn y lleoliad yn gyfredol. Fodd bynnag, nid yw’r bobol sy’n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau bod rhieni'n cwblhau'r holl wybodaeth ofynnol yng nghofnod eu plentyn i sicrhau bod staff yn gallu diwallu eu holl anghenion unigol. Doedd y ffeiliau staff a archwiliwyd ddim yn cynnwys yr holl wybodaeth gofynnol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadarnhau bod staff yn derbyn sesiynau goruchwylio ac mae'r trafodaethau hyn yn cael eu cofnodi, ond nid oes ganddynt wybodaeth am dargedau perfformiad. Gan fod y staff i gyd yn newydd yn eu swyddi mae trefniadau i gynnal arfarniadau yn y flwyddyn newydd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu'n dda â'u cymuned a'r ysgol gynradd. Buom yn siarad â rhiant a ddywedodd eu bod yn hapus iawn â'r gofal a ddarperir a’u bod yn gallu trafod unrhyw fater gyda’r staff. Mae lluniau o'r plant yn mwynhau chwarae, ac yn cael profiadau lle maent yn ymgyfarwyddo a'u hamgylchoedd lleol ac yn cael cyfleodd i wella eu sgiliau cymdeithasol.

## Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

A1: Gwella asesiadau risg er mwyn iddynt fod yn adlewyrchiad clir o'r lleoliad a'r gweithgareddau y mae plant yn cymryd rhan ynddynt.

A2: Defnyddio adnoddau a chyfleoedd chwarae i helpu datblygiad plant ac adeiladu ar eu dychymyg a chwilfrydedd naturiol i'w helpu i ymarfer gan ddefnyddio'u synhwyrau.

A3: Datblygu sesiynau goruchwylio un i un gyda staff i adolygu eu perfformiad a'u hanghenion hyfforddi.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau y casglwyd yr holl wybodaeth ofynnol yn ffeiliau cyflogi'r staff. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau y cesglir yr holl wybodaeth ofynnol. | Heb ei gyflawni |
| 30 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi casglu'r holl wybodaeth ofynnol yng nghofnodion unigol y plant. Nid yw wedi sicrhau bod pob rhiant yn llofnodi ffurflen ddamwain eu plentyn i gadarnhau eu bod wedi cael gwybod am ddigwyddiad. Nid yw'r staff yn cofnodi eu hamseroedd egwyl. Mae angen i'r unigolyn cyfrifol gasglu'r holl wybodaeth ofynnol yng nghofnodion unigol y plant, sicrhau bod | Heb ei gyflawni |

| | | |
|---|---|---|
| | rhieni'n llofnodi ffurflen ddamwain eu plentyn a sicrhau bod y staff yn cofnodi eu hamseroedd egwyl er mwyn cadw cofnod cywir o bwy sy'n gofalu am y plant ar ba adegau bob dydd. | |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 38 | Rheoliad 38 (e) Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010"): Rhagofalon Tân: | Wedi ei gyflawni |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella.<br>Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na.<br>chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/11/2022